



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**CYNGOR YMGYNGHOROL
SEFYDLOG AR ADDYSG
GREFYDDOL**

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2022-2023

NEGES GAN AELODAU CYSAG CAERFFILI

Hoffai aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Caerffili ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS) ddiolch i bawb yn y sector addysg am y gwaith rhagorol rydych chi'n ei wneud i ddarparu gofal, cymorth ac addysg i blant a phobl ifanc yng Nghymru, er gwaethaf yr heriau a'r ansicrwydd niferus a wynebir wrth i ni ddod allan o gyfnod y pandemig. Mae hefyd wedi bod yn amser ar gyfer newid a thwf mawr wrth i ysgolion symud i'r Cwricwlwm i Gymru newydd 2022.

Hoffai'r Aelodau atgoffa ymarferwyr sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol (AG) a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) bod CYS yma i'ch cefnogi gyda chynghor ar addysgu, dysgu ac adnoddau, yn ogystal â chynghor ar CGM yng nghwricwlwm newydd Cymru.

Yn ogystal, mae cymorth CYSAG hefyd ar gael ar gyfer y Weithred Addoli Ddyddiol.

Mae CYS Caerffili ar CGM yn croesawu gohebiaeth drwy'r cysylltiadau isod:

Julie Lloyd, Clerc CYSAG Caerffili
lloydj4@caerffili.gov.uk

Hayley Jones, Partner Cwricwlwm (CYS a CGM) - GCA De-ddwyrain Cymru
hayley.jones@sewaleseas.org.uk

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG CAERFFILI
AR ADDYSG GREFYDDOL**

2022-2023

CYNNWYS	TUDALEN
ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG	4
1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG	4
1.2 Cyfansoddiad CYSAG	4
1.3 Aelodaeth CYSAG	4
1.4 Swyddogaethau CYSAG	5
1.5 Cyfarfodydd	5
1.6 Dosbarthiad yr Adroddiad	5
CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG	6
ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL	10
2.1 Y Maes Llafur y cytunwyd arno'n Lleol	10
2.2 Safonau yn AG	10
2.3 Dulliau o Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon	11
ADRAN 3: CYNGOR AR GYDADDOLI	14
3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion	14
3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau	14
3.3 Ymweliadau Ysgolion	14
ADRAN 4: MATERION ERAILL	15
4.1 Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC)	15
4.2 Addysg am yr Holocaust	15
4.3 Cwricwlwm i Gymru 2022	16
4.4 Ymgynghoriadau Ysgolion yr 21ain Ganrif	16
4.5 Hyfforddiant Aelodau CYSAG	16
4.6 Aelodaeth o CYSAG	16
ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG CAERFFILI HYDREF 2021 – HAF 2022	17
ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDA'R CYFARFODYDD	18
ATODIAD 3: DOSBARTHIAD YR ADRODDIAD	20

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL
CAERFFILI AR ADDYSG GREFYDDOL**

2022- 2023

ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG/CYS

1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG/CYS

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol ffurfio Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS) yn eu hardal leol, o dan adran 390 o Ddeddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Bydd swyddogaethau etifeddiaeth CYSAG yn cael eu harfer gan CYS wrth aros i faes llafur cyn cwricwlwm Cymru 2022 ddod i ben yn raddol.

1.2 Cyfansoddiad CYSAG/CYS

Mae angen cynrychiolaeth ar CYSAG fel a ganlyn: -

- (i) Y fath enwadau Cristnogol a chrefyddol eraill ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a fydd, ym marn yr Awdurdod Lleol, yn adlewyrchu'n briodol y prif draddodiadau crefyddol yn yr ardal. Ers 2018, ar Gyfarwyddyd Gweinidog Addysg Cabinet Llywodraeth Cymru, gall dyneiddwyr fod yn aelodau llawn o'r Pwyllgor hwn yn ogystal â grwpiau cred eraill sy'n debyg i gred grefyddol;
- (ii) Cynrychiolwyr cymdeithasau athrawon;
- (iii) Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol.

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol y dylai'r CYSAG/CYS gynnwys chwe aelod etholedig, saith corff sy'n cynrychioli crefydd a chred a saith cynrychiolydd cymdeithasau athrawon. Yn ogystal, caniatodd yr Awdurdod i ddau unigolyn arall gael eu cyfethol. Mae'r ddau le cyfetholedig yn wag ar hyn o bryd (gweler 1.3 ynglŷn â chymau i lenwi swyddi gwag).

1.3 Aelodaeth o CYSAG/CYS

Mae'r rhestr aelodaeth sy'n dangos y sefyllfa ar gyfer Medi 2022-Awst 2023 ynghlwm yn Atodiad 1.

Mae CYSAG yn parhau i ymdrechu i geisio cynrychiolaeth gan sefydliadau crefyddol heblaw am Gristnogaeth ond wedi profi oedi wrth ddod o hyd i gynrychiolaeth o'r fath. Cafodd y broses hon ei gohirio oherwydd pandemig COVID-19 ond ers hynny mae wedi cael ei hail-archwilio yn 2022-2023. Ar hyn o bryd mae'r ALI yn chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb mewn perthynas â swyddi gwag yn y grŵp hwn.

O ran Pwyllgor A, gofynnwyd am gyngor gan Gytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru). O ran Pwyllgor B, mae CYSAG/CYS yn y broses o gysylltu ag ysgolion i ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer y ddau le gwag ar y pwyllgor (ASCL ac NEU).

Mae CYSAG Caerffili hefyd wedi dyrannu eu dau le cyfetholedig i gynrychiolwyr ieuencid ac mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r lleoedd hyn. Mae CYSAG/CYS yn

edrych ymlaen at bobl ifanc yn ymuno â'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) yn y dyfodol er mwyn ymgorffori llais y dysgwyr.

1.4 Swyddogaethau CYSAG

- Cyngori'r Awdurdod Lleol ar addoli, addysg grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sydd i'w rhoi yn unol â'r maes llafur y cytunwyd arno gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon.
- Ystyried a ddylid argymhell i'r awdurdod lleol y dylid adolygu ei faes llafur y cytunwyd arno ar hyn o bryd drwy gynnull Cynhadledd Maes Llafur y Cytunwyd Arno.
- Ystyried a ddylid amrywio'r gofyniad y dylai addoliad crefyddol mewn ysgol sir fod yn 'yn fras yn Gristnogol ei natur' (penderfyniadau)
- Adrodd i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar ei weithgareddau yn flynyddol.

1.5 Cyfarfodydd

Cyfarfu CYSAG ar dri achlysur yn ystod blwyddyn academiaidd 2021-2022.

5^{ed} Rhagfyr 2022

13^{eg} Mawrth 2023

29^{ain} Mehefin 2023

Cynhaliwyd y tri chyfarfod ar-lein trwy Microsoft Teams yn ystod 2022-2023. Fodd bynnag, penderfynwyd y bydd cyfarfodydd, lle bo hynny'n bosibl, yn parhau i gael eu cynnal mewn lleoliadau eraill fel ysgolion neu addoldai yn ystod 2023-2024.

1.6 Dosbarthiad yr adroddiad

Dosberthir copïau o'r adroddiad hwn yn electronig i'r sefydliadau hynny a restrir yn Atodiad 3. Mae hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC).

CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG/ SAC

Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol gan CYSAG

ADDYSG GREFYDDOL / CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

Mater

Monitro'r ddarpariaeth a'r safonau yn AG/CGM

Cam Gweithredu

1. CYSAG/CYS yn ystyried ac yn dadansoddi adroddiadau arolygu ysgolion. Os oes unrhyw faterion sy'n ymwneud ag AG/CGM, megis peidio â chyflawni gofynion statudol, yna mae'r ALI yn dilyn i fyny ar hyn. Ailsefydlwyd y broses hon yn ystod 2022-2023 a bydd yn parhau i mewn i flwyddyn academaidd 2023-2024.
2. Mae CYSAG / CYS yn ymweld ag ysgolion yn flynyddol i dderbyn cyflwyniad ar AG/CGM. Fodd bynnag, yn ystod 2022-2023 ni ymwelodd CYSAG/CYS ag unrhyw ysgolion.

Mater

Cyflawni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur y cytunwyd arno ar gyfer AG/CGM ar sail pum mlynedd a sicrhau bod y maes llafur y cytunwyd arno yn cael ei weithredu mewn ysgolion.

Cam Gweithredu

1. Yn 2008 cymeradwyodd a mabwysiadwyd maes llafur newydd y cytunwyd arno ar gyfer ysgolion yr awdurdod, a roddwyd ar waith o fis Medi 2008. Ym mis Mehefin 2013 cymeradwyodd y Gynhadledd Maes Llafur y Cytunwyd Arno i ail-fabwysiadu maes llafur y cytunwyd arno Caerffili ar gyfer Addysg Grefyddol, gyda'r ddealltwriaeth y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu unwaith y bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei derbyn mewn perthynas â'r asesiad a'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol.
2. Derbyniodd CYSAG (fel yr oedd bryd hynny) ddiweddariadau drwy e-bost ac yn ystod cyfarfodydd tymhorol o ddatblygiadau gyda'r Cwricwlwm a Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.
3. Yn ystod 2020-2021 ymatebodd CYSAG i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Canllawiau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru 2022.
4. Yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau CGM fe wnaeth CYSAG gynghori'r awdurdod lleol i gynnull cynhadledd Maes Llafur y Cytunwyd Arno lle trafodwyd mabwysiadu neu addasu'r fframwaith fel Maes Llafur y Cytunwyd Arno Caerffili.
5. Yn dilyn hynny, mabwysiodd yr awdurdod lleol y maes llafur newydd y cytunwyd arno ym mis Mehefin 2022 a dosbarthwyd y ddogfen i bob ysgol ym mis Gorffennaf 2022 cyn gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Medi 2022.

DEUNYDDIAU ADDYSGU

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn cael gwybod am adnoddau addas ar gyfer AG/CGM.

Cam Gweithredu

Anfonwyd y wybodaeth a'r adnoddau canlynol i ysgolion, gydag Aelodau CYSAG/CYS hefyd wedi cael copi o'r wybodaeth wedi'i anfon atynt:

1. Hysbyswyd ysgolion am Wythnos Ryng-ffydd 2022, o ddydd Sadwrn, 12^{fed} i ddydd Sadwrn 19^{eg} Tachwedd. Gellir dod o hyd i adnoddau ar eu gwefan <https://www.interfaithweek.org>, mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, astudiaethau achos a deunydd cydaddoli sy'n addas ar gyfer oed cynradd i ôl-16.
2. Cafodd ysgolion wybod am thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2023 sef 'Pobl Gyffredin'. Gellir dod o hyd i adnoddau'r Holocost ar eu gwefan www.hmd.org.uk/, mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunyddiau a thafleuni gwaith cydaddoli/cynulliad sy'n addas ar gyfer myfyrwyr oed cynradd i ôl-16.
3. Parhaodd CCYSAGauC i ddarparu adnoddau a chyngor ar gyfer AG, CGM a chydaddoli, a ddosbarthwyd i ysgolion trwy CYSAG.
4. Hysbyswyd ysgolion am ymgynghoriadau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dyniaethau a CGM.
5. Anfonwyd manylion Cyfarfodydd Rhwydwaith Cynradd ac Uwchradd ar gyfer arweinwyr cwricwlwm, a chynigion o gymorth, i bob ysgol gynradd ac uwchradd trwy Rwydwaith Dyniaethau'r GCA.
6. Anfonwyd gwybodaeth Ysgoloriaethau Farmington 2023-2024 i bob ysgol a'i rhannu trwy gyfarfodydd CYSAG.

DYSGU PROFFESIYNOL AR GYFER STAFF

Mater

Sicrhau bod athrawon yn gallu cael mynediad at ddysgu proffesiynol priodol (DP).

Cam Gweithredu

Mae egwyddor sybsidiaredd yng Nghwricwlwm i Gymru, a'r GCA wedi cynnig ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol, i bob ymarferwr yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar rannu arfer a grymuso athrawon.

Mae'r GCA wedi darparu hyfforddiant AG penodol i ymarferwyr ysgolion uwchradd drwy Bartner y Cwricwlwm ar gyfer CGM a CYSAG. Yn ystod 2022-2023 darparodd y GCA DP penodol i ymarferwyr ysgolion cynradd ac uwchradd drwy Ysgolion Rhwydwaith Dysgu, cyfarfodydd y Dyniaethau, a Phartner y Cwricwlwm ar gyfer CGM a CYSAG. Roedd ffocws yr hyfforddiant yn cynnwys gweithredu Cwricwlwm i Gymru 2022, dulliau o gynllunio'r cwricwlwm ac addysgeg, yn ogystal â newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag CGM.

Cafodd ysgolion yn y rhanbarth hefyd sesiynau briffio parhaus gan Benaethiaid CGM, gyda'r nod o ddeall gofynion gorfodol CGM, datblygu dealltwriaeth o CGM a sut mae wedi esblygu yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru, ac ystyried rhai o'r materion cynllunio neu weithredu a allai godi oherwydd y fframwaith CGM newydd mewn ysgolion.

Hysbyswyd ysgolion am Wythnos Ryng-ffydd 2022. Rhannwyd adnoddau a dolen gwefan ar gyfer y digwyddiad hwn gydag ysgolion (<https://www.interfaithweek.org>) – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, astudiaethau achos, deunyddiau cydaddoli sy'n addas ar gyfer oed cynradd i ôl-16. Y gobaith yw y bydd y deunyddiau yn ddefnyddiol i ysgolion, a gofynnwyd iddynt roi gwybod i CYS am eu cyfranogiad er mwyn clywed am brofiadau disgyblion a chanlyniadau dysgu.

Cafodd ysgolion wybod am thema Diwrnod Cofio'r Holocaust 2023 'Pobl Gyffredin' a rhannwyd adnoddau o'u gwefan (www.hmd.org.uk/) – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd a thafleuni gwaith cydaddoli/cynulliad sy'n addas ar gyfer myfyrwyr oed cynradd i ôl-16. Y gobaith yw y bydd y deunyddiau'n ddefnyddiol i ysgolion, a gofynnwyd iddynt roi gwybod i CYS am eu cyfranogiad er mwyn clywed am brofiadau disgyblion a chanlyniadau dysgu.

Parhaodd CCYSAGauC i ddarparu adnoddau a chyngor ar gyfer AG, CGM a chydaddoli a ddosbarthwyd i ysgolion trwy CYS.

Hysbyswyd ysgolion am unrhyw ymgynghoriadau a chyhoeddiadau pellach gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Dyniaethau a CGM.

Parhaodd y Prosiect Dylunio Cwricwlwm trawsranbarthol (gyda chefnogaeth Lucy Crehan yn 2022) a rhannwyd adnoddau gydag ysgolion, a gyhoeddwyd y rheiny ar Hwb.

Gwahoddwyd athrawon i rannu arfer da gyda CYSAG. Rhannodd Ysgol Gynradd Hengoed gynlluniau Cwricwlwm CGM cychwynnol yn ystod cyfarfod rhwydwaith y Gwanwyn.

a

Comisiynodd CCYSAGauC ddysgu proffesiynol penodol yn ymwneud â CGM, gyda chyllid Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd y cyntaf mewn cyfres o fodiwlau ym mis Mawrth 2023. Bwriad yr adnoddau hyn yw cefnogi ymarferwyr gyda'r newidiadau i CGM (Addysg Grefyddol gynt), o fewn Cwricwlwm Cymru. Mae'r modiwlau wedi'u teilwra'n benodol a'u nod yw cefnogi ymarferwyr. Maent yn helpu gyda'r newid i ffordd newydd o feddwl, cynllunio a chyflwyno cwricwlwm CGM sy'n bwrpasol i ddysgwyr yng Nghymru.

CYDADDOLI

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn cyflawni gofynion statudol ar gyfer cydaddoli ac yn darparu profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

Cam Gweithredu

1. Mae CYSAG/CYS yn monitro'r adrannau o adroddiadau arolygu sy'n ymwneud â chydaddoli a materion Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol, ac

mae'r ALL yn dilyn i fyny ar unrhyw ddiffyg cyflawni gofynion statudol trwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Yn ystod 2022-2023. Ni nododd Estyn unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gyda gofynion statudol o'r arolygiad hwn. Ym mron pob ysgol, adroddir bod sgiliau ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn datblygu'n dda, ac mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth dda o gredoau ysbrydol a moesegol trwy gynulladau, amser myfyrio, cymharu gwahanol grefyddau a chredoau.

2. Mae ysgolion wedi cael gwybod gan CYSAG/CYS am adnoddau a gwefannau priodol sy'n cefnogi cydaddoli mewn ysgolion e.e. Diwrnod Cofio'r Holocaust 2022-2023.
3. Penderfynodd CYSAG / CYS barhau i gynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn y Sir ac arsylwi gweithred o gydaddoli, lle bo hynny'n bosibl, i fonitro cyflawni gofynion statudol, darpariaeth ac ansawdd cydaddoli yn ystod 2023-2024.

MATERION ERAILL:

Nod: Sicrhau CYSAG/CYS mwy gwybodus drwy ddarparu diweddariadau rheolaidd ar faterion lleol a chenedlaethol.

1. Mae CYSAG/SAC wedi cynnal ei aelodaeth o CCYSAGauC ac yn derbyn adborth tymhorol o gyfarfodydd y Gymdeithas.
2. Mae'r Partner CGM yn aelod o'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol ac yn mynychu cyfarfodydd ar ran CYSAG/CYS yn rheolaidd.
3. Mae aelodau CYSAG / CYS yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau deddfwriaethol ac addysgol ac i ddeall rôl a swyddogaeth CYSAG/CYS.
4. Mae CYSAG/CYS yn cymryd Addysg am yr Holocaust o ddifrif ac yn cynghori'r ALL a'i hysgolion ar hyn.
5. Mae CYSAG/CYS wedi derbyn diweddariadau ar ddatblygu a gweithredu Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r goblygiadau ar gyfer addysg grefyddol. Mae wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm i Gymru.
6. Mae CYS wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad cymwysterau 14-16 llawn Cymwysterau Cymru, sy'n cynnig ymgynghoriad a'r goblygiadau ar gyfer addysg grefyddol. Mae wedi ymateb i hyn.
7. Byddai CYSAG/CYS, lle bo'n bosibl, yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yng Nghaerffili er mwyn i aelodau ymgyswngu ag AG, CGM a chydaddoli mewn ysgolion. Ni fu hyn yn bosibl yn 2022-2023. Bydd cyfarfodydd mewn ysgolion yn cael eu cynllunio ar gyfer 2023-2024 lle bo hynny'n bosibl.

ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL / CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

2.1 Y Maes Llafur y Cytunwyd Arno'n Lleol

Maes llafur y cytunwyd arno'n lleol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (Cwricwlwm i Gymru 2022)

Cynullodd Awdurdod Lleol Caerffili Gynhadledd Maes Llafur y Cytunwyd Arno. Cynghorodd y Gynhadledd yr ALI i fabwysiadu'r Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel sail i'r maes llafur y cytunwyd arno'n lleol ar gyfer CGM. Gwnaed newidiadau i sicrhau y gellir darllen y ddogfen fel maes llafur y cytunwyd arno yng Nghaerffili ar gyfer CGM. Yn unol â'r newidiadau i'r Cwricwlwm i Gymru 2022, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'u haddysgu i bob plentyn ysgol gynradd ac efallai dysgwyr blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Roedd ysgolion uwchradd yn gallu gohirio addysgu'r cwricwlwm newydd tan fis Medi 2023. Os bydd ysgol uwchradd yn dewis gwneud hyn, byddant yn dysgu'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys CGM, i flwyddyn 7 ac 8 ym mis Medi 2023. Bydd ysgolion uwchradd yn parhau i addysgu'r cwricwlwm cyn 2022 (o'r enw Cwricwlwm i Gymru 2008), gan gynnwys maes llafur y cytunwyd arno ar gyfer Addysg Grefyddol, i ddisgyblion ym mlwyddyn 8 ym mis Medi 2022 a bydd cwricwlwm 2008 yn eu dilyn yn ystod eu hamser mewn addysg uwchradd orfodol.

Mae'r maes llafur newydd y cytunwyd arno, sy'n cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd, yn ymwneud â'r pwnc o'r enw 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Mae'r maes llafur blaenorol y cytunwyd arno, sy'n dal i fod yn gymwys ar gyfer ysgolion uwchradd am y rhesymau a ddisgrifir uchod, yn ymwneud â'r pwnc dan y teitl 'Addysg Grefyddol'. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig. I dderbyn diweddariad gan yr Ymgynghorydd AG.

2.2 Safonau yn AG / CGM

Mae CYSAG wedi mabwysiadu sawl strategaeth ar gyfer monitro safonau sy'n cael eu cyflawni mewn addysg grefyddol yn ysgolion yr Awdurdod, sy'n cynnwys y canlynol.

Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Mae wedi bod yn arfer i CYSAG/CYS graffu ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn ar gyfer ysgolion ledled ysgolion Caerffili, ac os daw unrhyw faterion i'r amlwg ynghylch cydaddoli, megis peidio â chyflawni gofynion statudol, yna mae'r ALI yn dilyn i fyny ar hyn ac yn gofyn am eu cynllun gweithredu. Yn ystod 2022-2023 ail-sefydlwyd y broses hon yn dilyn pandemig Covid-19. Nid oes unrhyw ddyfarniadau pwnc yn y fframwaith arolygu Estyn presennol. Yn hytrach, mae aelodau'n derbyn gwybodaeth o'r adroddiadau sy'n ymwneud â sylwadau Estyn am ddarpariaeth ysgolion o faterion Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol.

Adroddiadau Archwilio

Mae wedi bod yn arfer CYSAG/CYS i ddadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd a nodi tueddiadau mewn perfformiad a feincnodwyd yn erbyn data Cymru gyfan.

Fodd bynnag, oherwydd canllawiau parhaus gan Lywodraeth Cymru ar y ffordd y caiff data ei gyflwyno, ac i osgoi cymhariaeth fympwyol o ysgolion, ni chyflwynwyd hyn i

aelodau, ac nid oeddent yn gallu trafod y data arholiadau cymharol ar gyfer arholiadau a ddyfarnwyd yn 2021-2022. Mae perthynas llawer agosach wedi bod, a bydd yn parhau i fod, rhwng yr ALI a CYSAG. Bydd y partner GCA yn gallu nodi ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol o ganlyniad i hunanwerthusiad ysgolion eu hunain, arolygiadau Estyn a chydweithio â'r GCA.

Trwy gyfarfodydd ymarferwyr Dyniaethau a CGM y GCA, diweddarwyd ysgolion ar y newidiadau i'r arholiadau TGAU a TAG ar gyfer Astudiaethau Crefyddol. Rhannwyd yr ymarferwyr a'r holl faterion sy'n ymwneud â'r arholiadau Astudiaethau Crefyddol a'r safbwyntiau gydag CYS, CCYSAGauC, y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol a CBAC.

Yn ystod 2023-2024 bydd CYSAG/CYS yn trafod ffyrdd y bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu darparu gwybodaeth ystyrlon i CYS am ansawdd Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol yn CA4 yn ei ysgolion.

Hysbyswyd CYSAG/CYS a thrafodwyd yr heriau cenedlaethol sy'n wynebu Addysg Grefyddol/Astudiaethau Crefyddol a'r gostyngiad mewn mynediad TGAU a Safon Uwch. Cyhoeddodd Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr adroddiad. Cafodd CYS ddiweddariad cenedlaethol a thrafodwyd pryderon.

Rhannwyd pryderon gyda CCYSAGauC a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol.

2.3 Dulliau o Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon

Dysgu Proffesiynol

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad i ysgolion ar addysgeg ac adnoddau. Mae'r GCA, fel darparwr rhanbarthol gwasanaethau gwella ysgolion a chymorth dysgu proffesiynol i ysgolion ac ymarferwyr, wedi darparu ystod eang o raglenni dysgu proffesiynol, deunyddiau a dulliau a rennir ag ysgolion yn y rhanbarth.

Mae GCA yn hysbysebu ei gyrsiau trwy DPP ar-lein. Cynigiodd Mrs Hayley Jones gefnogaeth bwrpasol ar gyfer Addysg Grefyddol yn y rhanbarth yn ystod 2022-2023.

Cynghorwyd CYS bod y GCA wedi buddsoddi mewn darparu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer Ymchwil / AG/Astudiaethau Crefyddol a CGM. Mae hyn yn galluogi ysgolion i dderbyn cefnogaeth uniongyrchol gan Bartner y Cwricwlwm ar gyfer Addysg Uwch/CGM a CYSAG/CYS, er enghraifft wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru, cynllunio, a dylunio eu cwricwlwm CGM a'r Dyniaethau. Mae ysgolion clwstwr hefyd yn gweithio gyda'i gilydd, gyda chefnogaeth yr ymgynghorydd i gyd-lunio a chydweithio eu dyluniad cwricwlwm CGM a'r Dyniaethau ar hyd y continwrm dysgu, o 3 i 16 oed. Mae'r cynnig hwn yn agored i bob ysgol ac mae wedi caniatáu i ysgolion adeiladu a chynyddu'r gydberchnogaeth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, addysgeg ac arweinyddiaeth. Y model hwn yw'r prif ysgogydd i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei wireddu o fis Medi 2022 a chyflwyno dysgu proffesiynol a bydd yn cefnogi'r newidiadau cenedlaethol mewn atebolrwydd a hunanwerthuso. Gall ymarferwyr CGM gael mynediad at ddysgu ac adnoddau proffesiynol GCA ar addysgeg.

Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol

Mae gwaith Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu ym mhob consortiwm wedi parhau trwy 2022-2023 ac mae'r arweiniad a'r gefnogaeth sy'n deillio o'r Rhwydwaith, ynghyd â'r gwaith a wnaed rhwng cydweithwyr ar draws CYSAG/CYS a Phanel Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol, wedi'u rhaeadru i athrawon Addysg Grefyddol/CGM.

Mae gan Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu Basaleg wedi cynhyrchu a rhannu adnoddau i uwchsgilio ymarferwyr AG/CGM anarbenigol trwy grynodedau gwybodaeth o brif grefyddau'r byd. Mae'r adnoddau hyn ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd yng ngofod Timau Dyniaethau GCA ac mae pob cofnod o gyfarfodydd y Dyniaethau'n cael eu cofnodi a'u storio yn y ffeiliau yno i ymarferwyr ddychwelyd iddynt. Mae cefnogaeth bwrpasol hefyd ar gael yn ôl yr angen.

Deunyddiau Addysgu

Mae ystod eang o ddeunyddiau addysgu wedi cael eu gwneud yn hysbys i ysgolion gan CYSAG, fel a ganlyn:

Ysgoloriaethau Farmington

Rhoddodd CYS wybodaeth i ysgolion Caerffili am Ysgoloriaethau Farmington 2022 - 2023 sy'n rhad ac am ddim i athrawon addysg grefyddol yn y DU. Gall ymarferwyr astudio unrhyw agwedd ar addysg grefyddol y maent yn eu dymuno, ond rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr y gellir gweld bod eu gwaith o werth uniongyrchol i addysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Bydd yr Ysgoloriaeth yn talu costau hyfforddiant a llety lle bo hynny'n briodol, teithio lleol hanfodol a, trwy drafod gyda'r ysgol, cyflog athro newydd hyd at bwynt 6 o'r brif raddfa gyflog. Gellir cymryd Ysgoloriaethau yn yr ysgol/cartref ar ffurf rhyddhau diwrnod, er enghraifft am un diwrnod yr wythnos dros dymor neu dros y flwyddyn, neu am gyfnodau parhaus hyd at uchafswm o 30 diwrnod. Gellir cymryd Ysgoloriaethau yn y Brifysgol fel bloc o hyd at wyth wythnos neu ar ffurf rhyddhau diwrnod hyd at 30 diwrnod. Mae mwy o wybodaeth ar gael i ysgolion ar wefan www.farmington.ac.uk neu e-bostiwrch: farmington@hmc.ox.ac.uk

Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2023

Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2023, ysgrifennodd CYS at bob ysgol i'w hannog i goffáu'r diwrnod mewn rhyw ffordd. Fe'u hysbyswyd am y thema, a'r adnoddau addysgol rhad ac am ddim am yr Holocaust sydd i'w gweld ar [Wefan Diwrnod Cofio'r Holocaust](#) - roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli / cynulliad a thaflenni gwaith sy'n addas ar gyfer myfyrwyr oed cynradd i ôl-16.

Prosiect Dylunio Cwricwlwm trawsranbarthol gyda Lucy Crehan Cyhoeddwyd yr adnoddau ar Hwb.

Adnoddau Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru a doleri y wefan ar gyfer cymorth CGM <https://www.jhasw.com/>

Nod Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru yw datgelu, dogfennu, cadw a rhannu treftadaeth cymunedau Iddewig De Cymru. Mae'r elusen wedi cynhyrchu Adnoddau Holocaust newydd ar gyfer athrawon a myfyrwyr yng Nghymru. Mae'r gweithgareddau ystafell ddosbarth, adnoddau addysgol a nodiadau cyfarwyddyd athrawon newydd ar

hanes yr Holocaust yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho.

Mae'r adnoddau'n ymgorffori tystebau fideo gan ffoaduriaid sy'n blant a ddaeth i Gymru yn ystod y 1930au i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid. Maent yn adrodd straeon lleol ac yn dangos Iddewon fel rhan o hanes Cymru ar y cyd ac wedi'i rannu. Maent hefyd yn rhoi llais i unigolrwydd a dynoliaeth gyffredin bywydau Iddewig yr effeithir arnynt gan yr Holocaust neu a gollwyd yn yr Holocaust.

Cyflwynodd yr hyfforddiant athrawon i adnoddau addysg Holocaust yr elusen ac esboniodd y rhesymeg, yr ymchwil a'r egwyddorion addysgegol sy'n sail i'r deunyddiau newydd hyn.

Newyddlen Dyniaethau'r GCA

Mae Newyddlen Dyniaethau'r GCA yn cael ei e-bostio i bob ysgol yn dymhorol. Mae'r newyddlen yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am addysgu a chyflwyno CGM ynghyd â diweddariadau sy'n ymwneud â gwaith a swyddogaeth CYSAG.

ADRAN 3: CYNGOR AR GYDADDOLI

3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Mae wedi bod yn arfer i CYS graffu ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn ar gyfer ysgolion ledled Caerffili, ac os bydd unrhyw faterion yn codi ynglŷn â chydaddoli, megis peidio â chyflawni gofynion statudol, yna mae'r ALI yn dilyn i fyny ar hyn ac yn gofyn am eu cynllun gweithredu. Yn ystod 2022-2023 ail-sefydlwyd y broses hon a bydd yn parhau yn 2023-2024.

Mae CYS wedi penderfynu parhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro bod gofynion statudol yn cael eu bodloni ac i ddefnyddio pa bynnag sylwadau sy'n berthnasol.

3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau

Ni dderbyniwyd ceisiadau gan ysgolion i benderfyniadau gael eu gwneud ar godi'r gofynion ar gyfer cydaddoli i fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol ar y cyfan.

3.3 Ymweliadau Ysgolion

Mae CYSAG/CYS yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a roddir i aelodau i arsylwi gweithredoedd o gydaddoli mewn ysgolion. Ni chafodd yr aelodau gyfle i gynnal cyfarfod CYSAG/CYS mewn ysgol nac arsylwi gweithred o gydaddoli yn ystod 2022-2023. Mae hyn yn rhywbeth yr hoffai CYS / CYSAG ei ail-sefydlu yn ystod 2023 – 2024.

ADRAN 4: MATERION ERAILL

4.1 CCYSAGauC

Mae CYSAG/SAC wedi parhau i gysylltu â CCYSAGauC ac mae cynrychiolwyr wedi mynychu ei gyfarfodydd. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2022-23 mae materion a ystyriwyd yng nghyfarfodydd CCYSAGauC wedi'u hadrodd yn llawn yn ôl i CYSAG ac mae trafodaethau llawn wedi cael eu cynnal. Mae SAC yn croesawu gwaith rhagweithiol CCYSAGauC wrth ymgymryd â materion sydd â goblygiadau i AG/CGM a hysbysu aelodau CYSAG yn llawn. Mae CYSAG/CYS Caerffili wedi derbyn adborth rheolaidd, gan Mrs Jones a'r rhai sy'n cynrychioli CYS, mewn cyfarfodydd CCYSAGauC.

4.2 ADDYSG HOLOCOST

Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2023 – 'Pobl Gyffredin'

Mae Diwrnod Cofio'r Holocaust, 27^{ain} Ionawr 2023, â'r thema 'Pobl Gyffredin' - yn amser sy'n cael ei neilltuo i ddod at ei gilydd i gofio, myfyrio a dysgu am yr Holocaust, Erledigaeth y Natsïaid a'r hil-laddiadau a ddilynodd yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur, yn y gobaith y gallai fod un diwrnod yn y dyfodol heb unrhyw hil-laddiad. Rydyn ni'n dysgu mwy am y gorffennol, rydyn ni'n cydymdeimlo ag eraill heddiw, ac rydyn ni'n gweithredu er mwyn sicrhau dyfodol gwell.

I ddangos ymrwymiad y cyngor i goffáu Diwrnod Cofio'r Holocaust, bydd Sefydliad y Glowyr Coed Duon a Thŷ Penallta yn cael eu goleuo i ddangos gweithred o undod.

Dywedodd y Cynghorydd Philippa Leonard, Hyrwyddwr Cydraddoldeb Cyngor Caerffili, "Mae'n bwysig ein bod yn parhau i nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust, gan na ddylid byth anghofio erchyllterau'r Holocaust a hil-laddiadau eraill ledled y byd."

Cynhaliodd Cymru hefyd ei hail seremoni Diwrnod Cofio'r Holocaust digidol.



Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2024, bydd CYSAG yn ysgrifennu at bob ysgol i'w hannog i goffáu'r diwrnod mewn rhyw ffordd a bydd yn eu cynghori am y thema, a'r adnoddau addysgol rhad ac am ddim am yr Holocaust sydd i'w gweld ar [Wefan Diwrnod Cofio'r Holocaust](#) - Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli / cynulliad a thafleuni gwaith sy'n addas ar gyfer myfyrwyr oed cynradd i ôl-16.

4.3 CWRICWLWM I GYMRU 2022

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i dderbyn diweddariadau ar y datblygiadau sy'n cael eu gwneud o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

4.4 HYFFORDDI AELODAU CYSAG

Mae aelodau CYSAG yn derbyn hyfforddiant ar Rolau a Chyfrifoldebau CYSAG ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd a bydd hyn yn cael ei drefnu yn ystod Hydref 2023.

4.5 AELODAETH O CYSAG

Mae'r rhestr aelodaeth gyfredol, sy'n dangos y sefyllfa ym mis Awst 2023, ynghlwm yn Atodiad 1.

Mae'r lleoedd canlynol yn wag ar hyn o bryd:

Lleoedd cyfetholedig x 2 – Mae CYSAG wedi cytuno i gyd-ethol dau gynrychiolydd ieuencid i'r Pwyllgor ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn.

Pwyllgor A - Mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r un swydd wag sy'n weddill ar gyfer y cynrychiolydd ffydd nad yw'n Gristnogol. Cyflwynodd cynrychiolwyr hir-wasanaeth yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig eu hymddiswyddiad i CYSAG yn ystod Gwanwyn-Haf 2022, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sicrhau aelodau newydd i lenwi'r swyddi gwag hyn.

Pwyllgor B – Mae dwy swydd yn parhau i fod yn wag ar gyfer Cynrychiolydd NEU a Chynrychiolydd ASCL, ac mae CYSAG wrthi'n ysgrifennu at ysgolion i ofyn am fynegiannau o ddiddordeb i lenwi'r lleoedd hyn.

4.6 CEFNOGAETH BROFFESIYNOL I CYSAG CAERFFILI

Mae Mrs Victoria Bodenham a Mr Paul Warren yn rhoi cymorth i CYSAG yn eu rôl fel Swyddogion Addysg yr Awdurdod Lleol.

Dechreuodd Mrs Hayley Jones, Partner Cwricwlwm y GCA ar gyfer CYS a CGM, yn ei swydd ym mis Tachwedd 2021 i ddarparu cymorth proffesiynol i CYSAG Caerffili a Dysgu Proffesiynol yn rhanbarth y GCA.

Parhaodd Mrs Julie Loyd i weithredu fel Clerc CYSAG, ac mae'r Aelodau'n ddiolchgar iawn i waith Mrs Lloyd sy'n hanfodol i weithrediad effeithiol ac effeithlon CYSAG Caerffili.

ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG CAERFFILI HYDREF 2022 - HAF 2023
AELODAETH CYSAG CAERFFILI DIWEDDARIAD FEL YM MIS TACHWEDD 2023

ENWADAU CRISTNOGOL A CHREFYDDOL ERAILL - PWYLLGOR A (7 AELOD)

Mrs Janet Jones (Yr Eglwys yng Nghymru) (Is-gadeirydd CYSAG)

Mr Michael Gray (Yr Eglwys Fethodistaidd)

Mr Ken Chamberlain (Dyneiddwyr Cymru)

Swydd wag – Cynrychiolydd crefyddol

Swydd wag – Cynrychiolydd crefyddol

Swydd wag – Cynrychiolydd crefyddol

Swydd wag - grŵp ffydd/crefydd nad yw'n Gristnogol

CYMDEITHASAU ATHRAWON - PWYLLGOR B (7 Aelod)

Ysgolion Cynradd

Mrs Tara Lloyd (NAHT)

Ms Meinir Jones (UCAC)

Miss J. Davenport (NEU)

Ysgolion Uwchradd

Miss Helen Bartley (NEU)

Ms Katherine McCullough (NASUWT)

Swydd wag - Cynrychiolydd ASCL

Swydd wag – Cynrychiolydd NASUWT

YR AWDURDOD LLEOL - PWYLLGOR C (6 Aelod)

Cynghorydd Mrs E.M. Aldworth

Cynghorydd M. Chacon-Dawson

Cynghorydd Mrs B. Miles

Cynghorydd Mrs T. Parry

Cynghorydd A. Whitcombe

Cynghorydd J. Taylor (Cadeirydd CYSAG)

AELODAU ETHOLEDIG (2 Aelod)

Dwy swydd wag - a gynhelir ar gyfer cynrychiolaeth ieuenctid ar CYSAG

SWYDDOGION

Ms Hayley Jones (GCA - Cynghorydd AG i CYSAG Caerffili)

Mrs Victoria Bodenham (Swyddog Arweiniol Gwella Ysgolion)

CLERC I CYSAG

Mrs Julie Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

E-bost lloydj4@caerffili.gov.uk

ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDA CYFARFODYDD

Cyfarfod CYSAG Caerffili

5^{ed} Rhagfyr 2022 am 3pm

Microsoft Teams

- Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.
- Datgan Buddiannau
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6ed Gorffennaf 2022 a materion yn codi.
- Ystyried gweithredoedd a materion sy'n codi o'r cofnodion (diweddariad llafar).
- Derbyn cyflwyniad gan Ysgol Lewis Pengam ar CGM and Chydaddoli (diweddariad llafar).
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Caerffili 2021-2022.
- Diweddariad gan yr Ymgynghorydd CGM.
- Monitro Darpariaeth a Safonau - Adroddiadau Arolygu Ysgolion Caerffili. Diwrnod Cofio'r Holocaust 2023.
- Diweddariad Gohebiaeth.
- Amserlen Cyfarfodydd 2023
- CCYSAGauC:-
 - Adborth o Gyfarfod Haf rhithwir CCYSAGauC a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 29ain Mehefin 2022.
 - Cynrychiolaeth yng Nghyfarfodydd CCYSAGauC sydd i ddod (diweddariad llafar).

Cyfarfod CYSAG Caerffili

13eg Mawrth 2023 am 3pm

Microsoft Teams

- Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.
- Datgan Buddiannau
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5ed Rhagfyr 2022 a materion yn codi.
- I dderbyn diweddariad gan yr Ymgynghorydd AG.
- Derbyn diweddariad ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan CYSAG Caerffili a/neu a ddosbarthwyd ar ran CYSAG Caerffili ers y cyfarfod diwethaf.
- Nodi dyddiad cyfarfodydd CYSAG yn y dyfodol yn ystod 2023.
- CCYSAGauC:-
 - Derbyn a nodi adborth o Gyfarfod Tymor yr Hydref CCYSAGauC.
 - Nodi dyddiadau cyfarfodydd CCYSAGauC yn y dyfodol a chadarnhau cynrychiolaeth

Cyfarfod CYSAG Caerffili

29^{ain} Mehefin 2023 am 3pm

Microsoft Teams

- Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.
- Datgan Buddiannau
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13^{eg} Mawrth 2023 a materion yn codi.
- I dderbyn diweddariad gan yr Ymgynghorydd AG.
- Ysgol Gynradd Hengoed - Cyflwyniad Cwricwlwm CGM

- Adroddiad Monitro a Gwerthuso Awdurdodau Lleol Caerffili (Ffocws: Effaith y newidiadau i ddeddfwriaeth a gweithredu'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg newydd (CGM))
- Hyfforddiant Aelodau (diweddariad llafar)
- Derbyn diweddariad ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan CYSAG Caerffili a/neu a ddosbarthwyd ar ran CYSAG Caerffili ers y cyfarfod diwethaf.
- Nodi dyddiad cyfarfodydd CYSAG yn y dyfodol yn ystod 2023.
- CCYSAGauC:-
 - Derbyn a nodi adborth o Gyfarfod Tymor y Gwanwyn CCYSAGauC.
 - Adborth o Gyfarfod Tymor yr Haf a Chyfarfod Blynyddol rhithwir CCYSAGauC a gynhaliwyd gan Sir Ddinbych ar 19 Mehefin 2023 (diweddariad llafar).
 - Pleidleisio Gweithredol 2023 - Etholiadau Pwyllgor Gweithredol CCYSAGauC (diweddariad llafar)
 - Nodi dyddiadau cyfarfodydd CCYSAGauC yn y dyfodol a chadarnhau cynrychiolaeth.

ATODIAD 3: DOSBARTHIAD YR ADRODDIAD

Bydd copïau'n cael eu hanfon yn electronig at y cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CCYSAGauC i bartïon â diddordeb ei lawrlwytho.

Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg Cyngor Caerffili

Holl aelodau CYSAG Caerffili

Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru (GCA)

Swyddog Addysg Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Addysg Grefyddol

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Llywodraeth Cymru

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob Ysgol yn y Fwrdeistref Sirol

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob Coleg Trydyddol yn y Fwrdeistref Sirol

Pob CYSAG yng Nghymru

Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

ESTYN